**Agenda Eitem: 4**

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar ddydd Gwener, 14 Hydref 2011 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr J.A. Davies, C.M. Evans, G.C. Evans, G.A. Jones ac M.M. Jones

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Parch. M. Evans-Jones, R. Elms, S. Harris, Parch. B.H. Jones ac E. Wright

**Aelodau Cyfetholedig**

M.B. Lloyd

### HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (PL) a'r Clerc i CYSAG (KEJ)

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**PWYNTIAU SYLW**

- Croesawodd y Cadeirydd ymadawol, y Cynghorydd M.M. Jones bawb i'r cyfarfod. Roedd yr aelodau'n siomedig o sylwi nad oedd unrhyw gynrychiolwyr yn bresennol o Gymdeithasau'r Athrawon. Dywedodd y Cadeirydd ymadawol y byddai'n anfon e-bost yn dweud y byddai CYSAG yn hoffi eu gweld nhw wedi'u cynrychioli mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Yn absenoldeb y Cadeirydd newydd, llywyddodd y Cadeirydd ymadawol, y Cynghorydd M.M. Jones dros ran gyntaf y cyfarfod. Cymerodd Mrs. M.B. Lloyd, cyn-Gadeirydd CYSAG y Gadair o eitem agenda rhif 10 ymlaen a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Jones am ei harweinyddiaeth a'i gwaith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd J.G. Yorke, M. Bradshaw a G. Craigen

**2 PENODI IS-GADEIRYDD I GADEIRIO**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych penodwyd yr Is-Gadeirydd presennol, Ms. M. Bradshaw yn Gadeirydd ar gyfer 2011 – 2013.

***PENDERFYNWYD*** *penodi Ms. M. Bradshaw yn Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2011 – 2013.*

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD – O'R CYNRYCHIOLWYR CREFYDDOL**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau i benodi Is-Gadeirydd ar gyfer 2011 – 2013 o'r Cynrychiolwyr Crefyddol. Cynigiwyd ac eiliwyd bod Mr. R. Elms i'w benodi'n Is-Gadeirydd am y ddwy flynedd ddilynol. Felly fe –

***BENDERFYNWYD*** *penodi Mr. R. Elms yn Is-Gadeirydd CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2011 – 2013.*

**4 DATGAN BUDDIANNAU**

Nid oedd dim datganiadau o fudd personol neu fudd sy'n rhagfarnu wedi'u codi.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd dim materion brys wedi'u codi i'w hystyried.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2011 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

**Materion yn Codi –**

Tudalen 1 – Eitem Rhif 1 – Ymddiheuriadau – Rhoddodd y Parchedig M. Evans-Jones wybod nad oedd Mrs. H. Ellis wedi derbyn gohebiaeth fel y cyfeiriwyd ato yn y cofnodion. Ymddiheurodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu am yr hepgoriad a chadarnhaodd y byddai'n ysgrifennu at Mrs. Ellis i fynegi diolchgarwch CYSAG am ei gwasanaeth gwerthfawr ar y Cyngor.

O ran aelodaeth CYSAG, rhoddodd Mrs. M.B. Lloyd wybod bod y Capten A. Tucker (Cynrychiolydd Byddin yr Iachawdwriaeth) wedi symud i ffwrdd o'r ardal. Awgrymodd Mrs. Lloyd fod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn ysgrifennu at Fyddin yr Iachawdwriaeth yn gofyn am gynrychiolydd yn ei le ar y Cyngor.

Nododd Mrs. Lloyd hefyd fod ychydig gyfarfodydd diwethaf CYSAG wedi'u cynnal yn Rhuthun a gofynnodd fod cyfarfodydd yn y dyfodol i gylchdroi o amgylch y sir fel ag yn y blynyddoedd blaenorol. Cytunodd y Clerc i CYSAG i ofalu bod trefniadau'n cael eu gwneud i gyfarfodydd yn y dyfodol gael eu cynnal yn Y Rhyl a Phrestatyn hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2011 fel rhai cywir.*

## 7 GOHEBIAETH ODDI WRTH GYMDEITHAS Y DYNEIDDWYR

Rhoddodd Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG wybod bod gohebiaeth wedi'i derbyn oddi wrth Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain yn gofyn bod aelodaeth ar CYSAG i'w rhoi i rywun yn cynrychioli'r dyneiddwyr. Roedd Cymdeithas y Dyneiddwyr wedi e-bostio pob CYSAG yng Nghymru nad oedd ganddynt gynrychiolydd o ddyneiddiwr ar eu Pwyllgor yn eu hannog i dderbyn un. Roedd Pwyllgor Gwaith CCYSAGC wedi argymell wedi hynny bod CYSAGau yn oedi wrth ymateb i Gymdeithas y Dyneiddwyr hyd nes oeddynt wedi gwneud ymholiadau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r sefyllfa gyfreithiol a bod y mater wedi'i drafod yng nghyfarfod CCYSAGC ym mis Tachwedd, ble gobeithid y byddai pob CYSAG yng Nghymru wedi'u cynrychioli.

O ystyried y ddeddfwriaeth sy'n rheoli cyfansoddiad CYSAG a'r dull o weithredu a argymhellwyd gan Bwyllgor Gwaith CCYSAGC fe –

***BENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried cais Cymdeithas y Dyneiddwyr am aelodaeth ar CYSAG tan y cyfarfod nesaf.*

## 8 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU

Cyflwynodd Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau arolygiadau diweddar Estyn o ran darparu AG ac addoli ar y cyd pedair ysgol rhwng Chwefror a Mai 2011. Roedd arolygiadau dan Fframwaith newydd Estyn wedi'u gwneud yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych; Ysgol Cyffylliog; Ysgol Rhewl ac Ysgol Penbarras, Rhuthun.

Cyflenwodd yr UYD:AG yr aelodau â chrynodeb byr o'r canfyddiadau'n ymwneud â phob un o'r ysgolion, gan egluro a gwneud materion penodol yn eglur mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ar hynny. Anogwyd yr aelodau i ddarllen yr adroddiadau arolygu llawn ar gyfer yr ysgolion, a oedd yn rhoi amrywiol elfennau'r arolygiad yn eu cyd-destun. Roedd hi'n bleser nodi'r sylwadau cadarnhaol ar draws yr ysgolion heb fod unrhyw sylwadau negyddol wedi'u derbyn.

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad, dan fframwaith adrodd ar Arolygiadau newydd Estyn, ond yn amlygu'r sylwadau a oedd yn berthnasol i gynllun datblygu'r ysgolion a'i fod fel y cyfryw brin yn gwneud sylwadau ar AG neu addoli ar y cyd yn uniongyrchol a'i fod felly gryn dipyn yn fwy cryno. Byddai monitro hanfodion addoli ar y cyd ac AG yn parhau drwy'r peirianwaith 'Monitro ac Adolygiadau Cefnogol'. O ystyried cychwyniad Fframwaith newydd Estyn ar gyfer arolygiadau, cynigiodd y Cadeirydd fod swyddog o'r Adran Addysg i'w wahodd i gyfarfod o CYSAG yn y dyfodol i egluro'r fframwaith adrodd newydd ac i ateb unrhyw gwestiynau oedd gan aelodau am hynny. Cytunwyd hefyd fod llythyrau i'w hanfon allan yn y dull arferol yn llongyfarch yr ysgolion ar eu nodweddion cadarnhaol.

Holodd y Parchedig M. Evans-Jones faint o ryngweithio oedd yn digwydd rhwng ysgolion ac eglwysi lleol gan ei fod yn teimlo y dylai fod mwy o gysylltiad rhwng y ddau. Soniodd yr UYD:AG am waith da ysgolion cynradd wrth lunio cysylltiadau gydag eglwysi a theimlai fod y Briodas Frenhinol ddiweddar wedi chwarae rhan bwysig wrth ffurfio'r cysylltiadau hynny gan fod y rhan fwyaf o ysgolion wedi ail-greu'r seremoni. Serch hynny roedd wedi gwneud argymhellion i rai ysgolion ymhel mwy ag eglwysi lleol. Cymerodd yr aelodau y cyfle i egluro'r berthynas rhwng yr ysgolion a'r

eglwysi/addoldai yr oeddynt yn gysylltiedig â hwy yn bersonol a soniasant am y gwaith da mewn ysgolion wrth ddarparu AG ac addoli ar y cyd. Er bod llawer perthynas dda wedi'i sefydlu roedd yna deimlad y gellid gwneud mwy mewn rhai ysgolion a theimlid yn gyffredinol mai cyfrifoldeb y gymuned grefyddol oedd bod yn fwy rhagweithiol wrth fynd at ysgolion ac ymweld â nhw.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) anfon llythyr at yr ysgolion a arolygwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a glustnodwyd;*

*(c) gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod, a*

*(ch) o ystyried Fframwaith newydd Estyn ar gyfer arolygiadau bod swyddog o'r Adran Addysg i'w wahodd i gyfarfod o CYSAG yn y dyfodol i egluro fframwaith adrodd newydd Estyn.*

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2010 – 2011**

Cyflwynodd Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) ddrafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2010 - 2011 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, yn cynnwys cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol, ynghyd â materion lleol a chenedlaethol eraill.

Atgoffwyd yr aelodau ei fod yn ofyniad statudol i CYSAG gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i waith i'w gyflwyno i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) erbyn 31 Rhagfyr. Gofynnodd yr UYD:AG i'r aelodau gymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newidiadau, fel cyfrif cywir i'w ddosbarthu i'r derbynyddion hynny fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Amlinellodd yr UYD:AG gynnwys yr adroddiad, a oedd yn cynnwys cyngor a roddwyd ac a weithredwyd gan yr awdurdod lleol o ran Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytûn; dulliau addysgu, dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; ac Addoli ar y Cyd. Roedd materion lleol a chenedlaethol eraill wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hefyd.

Roedd yr aelodau'n bryderus o nodi'r swyddi gwag heb eu llenwi ar CYSAG, yn arbennig mewn perthynas â chymdeithasau'r athrawon a rhoddodd yr UYD:AG wybod y byddai'n mynd at Ffederasiwn y Penaethiaid i roi ar ddeall iddynt bwysigrwydd llenwi'r swyddi gwag hynny.

Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG ac fe wnaethant gyfleu eu diolch i'r UYD:AG am ei waith caled wrth baratoi'r ddogfen.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2010 – 2011 fel cyfrif cywir o waith CYSAG, a*

(b) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu cyfieithu, argraffu a dosbarthu'r adroddiad i bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych a derbynyddion eraill fel y mynnir drwy gyfraith ac fel y clustnodwyd yn yr adroddiad.*

Bryd hyn, gadawodd y Cadeirydd ymadawol, y Cynghorydd M.M. Jones y cyfarfod a llywyddodd Mrs. M.B. Lloyd fel Cadeirydd am weddill y cyfarfod.

**10 MONITRO AC ADOLYGIADAU CEFNOGOL**

Cyflwynodd Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynglŷn â darparu Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Ysgol Uwchradd Y Rhyl a oedd yn cynnwys yr ysgolion bwydo canlynol: Ysgol Emmanuel; Ysgol Bryn Hedydd; Ysgol Llywelyn; Ysgol y Castell, Rhuddlan, ac Ysgol GS Christchurch.

Yn dilyn ymweliadau gan yr UYD:AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor yr haf, roedd adroddiad am yr ymweliad, y problemau a'r canlyniadau wedi'i gytuno. Crynhodd yr UYD:AG y nodweddion da, y diffygion a'r argymhellion ar gyfer pob ysgol a nodwyd yn yr adroddiad a rhoddodd grynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan. Rhoddodd sylw arbennig i'r ymresymiad y tu ôl i argymhellion penodol i ysgolion er mwyn gwella darpariaeth AG ac roedd wedi rhoi enghreifftiau o weithgareddau er mwyn annog ennyn diddordeb a mynegi sgiliau AG. Wrth ystyried y gweithgareddau hynny trafododd yr aelodau chwarae rôl gwyddonydd yn erbyn rhywun crefyddol ac roeddynt yn awyddus i bwysleisio y gallai gwyddonydd fod yn grefyddol hefyd a theimlai rhai aelodau y gall fod casgliad fod gwyddonydd yn wrthgrefyddol. Awgrymwyd mai myfyrdod mwy cywir i hyrwyddo cyfnewid barn o'r fath fyddai creadydd yn erbyn esblygiadydd. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau rhoddodd yr UYD:AG wybod ei fod wedi ymweld ag ysgolion yn rheolaidd a soniodd am y dewis o grefyddau a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 2, yn cynnwys Hindŵaeth, Iddewiaeth ac Islam yn ogystal â Christnogaeth.

Bryd hyn (11.05 a.m.) gadawodd y Parchedig B.H. Jones a'r Parchedig M. Evans-Jones y cyfarfod.

Wrth ystyried yr adroddiad cyfeiriodd yr aelodau at y cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion barhau AG ar Safon Uwch gan nodi nad oedd gan yr awdurdod addysg lleol ddim awdurdod dros ddisgyblion ôl 16 sydd wedi'u cofrestru ym Mhartneriaeth Chweched Y Rhyl a cholegau addysg bellach eraill. Dywedodd yr UYD:AG, oherwydd diffyg niferoedd yn cymryd AG Safon Uwch yn Chweched Y Rhyl, nad oedd yn cael ei gynnig bellach. O ystyried y gwaith da a wneir mewn ysgolion cynradd fel y tystiwyd gan y monitro a'r adolygiadau cefnogol a wneir mewn ysgolion a llwyddiant ysgolion y sir yn TGAU fel y tystiwyd yn y canlyniadau arholiad, teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddisgyblion gymryd AG fel pwnc Safon Uwch. Er yn sylweddoli y gall llai fod yn cymryd AG Safon Uwch, teimlai'r aelodau y dylid rhoi'r cyfle i ddisgyblion barhau eu Haddysg Grefyddol ac y dylid trefnu bod darpariaeth ar gael mewn colegau addysg bellach. Cytunwyd bod barn yr aelodau i'w chyflwyno i CCYSAGC.

Talodd yr aelodau deyrnged hefyd i waith caled ac ymroddiad yr UYD:AG wrth ymweld ag ysgolion ac adolygu'r ddarpariaeth, a oedd yn cael croeso da iawn gan yr ysgolion hefyd. Cyfleodd y Cadeirydd werthfawrogiad CYSAG i'r UYD:AG am ei holl waith yn y cyswllt hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) anfon llythyrau at yr ysgolion dan sylw gyda chopi o'r adroddiad llawn fel y'i cyflwynwyd i CYSAG yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG o ran mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion;*

*(c) gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod, a*

*(ch) gwneud argymhelliad i CCYSAGC, o ystyried y gwaith da a wneir mewn ysgolion cynradd a llwyddiant ysgolion y sir yn TGAU, y dylid rhoi'r cyfle i ddisgyblion barhau i gymryd AG fel pwnc mewn colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach ble mae'n bosibl.*

**11 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd yn Llangefni, Ynys Môn ar 24 Mehefin 2011 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau.

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (UYD:AG) ar y cyfarfod a chymerodd y cyfle, trwy gyflwyniad Powerpoint, i ddangos golwg cyffredinol ar gynigion buddugol y gystadleuaeth a noddwyd gan CCYSAGC i Ddathlu AG fel y'u cyflwynwyd i CCYSAGC yn y categorïau fel a ganlyn –

- Ysgol Ffrwd Win (Ynys Môn) - Cyfnod Sylfaen (Cydenillydd)
- Mynydd Cynffig, (Pen-y-bont ar Ogwr) - Cyfnod Sylfaen (Cydenillydd)
- Bryn Coch (Sir y Fflint) – Cyfnod Allweddol 2
- Ysgol Gyfun Porthcawl (Pen-y-bont ar Ogwr) – Ysgol Uwchradd

Ychwanegodd yr UYD:AG fod y defnyddiau a gynhyrchwyd o ansawdd uchel a gellid eu defnyddio fel adnodd ac ysbrydoliaeth a threfnwyd eu bod ar gael ar wefan CCYSAGC. Fe wnaeth yr aelodau lwyr fwynhau'r cyflwyniadau, a oedd wedi ysgogi meddwl ac ysbrydoli.

Tynnodd yr UYD:AG sylw'r aelodau hefyd at gyflwyniad a roddwyd i CCYSAGC gan Gavin Craigen ar 'AG – Cyfarwyddyd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3' a oedd yn rhoi golwg cyffredinol ar Gyfarwyddyd newydd AdAS ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Roeddid wedi gofyn i CYSAGau annog eu hysgolion i wneud defnydd o'r Cyfarwyddyd a oedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan CCYSAGC. Ychwanegodd y Cadeirydd, er nad oedd y cyfarwyddyd yn statudol, ei fod yn cael ei argymell i'w ddefnyddio mewn ysgolion yng Nghymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi cofnodion drafft cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2001 ynghyd â'r adroddiad llafar a'r cyflwyniad gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG.*

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Byddai cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ar ddydd Llun 13 Chwefror 2012 ac roedd i fod i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau, o ystyried eu cytundeb i gylchdroi cyfarfodydd o gwmpas y sir, y byddai'r man cyfarfod ar gyfer y cyfarfod hwn yn debygol o gael ei newid.

Cyn cau'r cyfarfod cyfeiriodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG at Ymddiriedolaeth Elusennol yr Archesgob Rice Jones a oedd yn cynnig grantiau i ysgolion i helpu i brynu adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Roedd mwy o fanylion ynglŷn â'r Ymddiriedolaeth wedi'u darparu ar gyfer yr aelodau yn y cyfarfod. Eglurodd Mrs. S. Harris gan fod grantiau o'r Ymddiriedolaeth yn cael eu gwneud ym mis Tachwedd bob blwyddyn, fod angen i geisiadau gan ysgolion gael eu cyflwyno erbyn diwedd yr hanner tymor hwn. Roedd grantiau wedi'u dyfarnu i dair ar hugain o ysgolion er 2008 ac anogodd hi'r aelodau i ddosbarthu manylion yr Ymddiriedolaeth i'r rheini â diddordeb. Byddai rhoddion at yr Ymddiriedolaeth yn cael eu derbyn yn ddiolchgar hefyd.

Wrth gau'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.**

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2012 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **5** | Dadansoddi Adroddiadau Archwilio |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae gan CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth AG ac addoliad cyfun mewn ysgolion, ac mae'n arferol iddo dderbyn a dadansoddi adroddiadau Archwilio Estyn ym mhob cyfarfod.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Hysbysu'r aelodau o ganlyniadau Adroddiadau Archwilio diweddar Estyn ar ysgolion.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr at bob un o'r ysgolion yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a adnabuwyd, ac yn eu hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu neu faterion allweddol sydd angen sylw.
- Gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu llythyrau i'r ysgolion perthnasol.

**Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen**

# Dadansoddi Adroddiadau Archwilio
# CYSAG Sir Ddinbych

## 23 Chwefror 2012

### Archwiliwyd dan Fframwaith newydd Estyn

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygydd Adrodd |
|---|---|---|
| **Ysgol Tremeirchion** | **Tachwedd 2011** | **Mr W Williams** |
| *Mae Tremeirchion yn ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol nad yw'n ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn economaidd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgyblion â hawl i bryd bwyd ysgol am ddim. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir yn y cartref ar gyfer rhyw 14% o'r disgyblion. Cymraeg yw prif gyfrwng dysgu ac addysgu yn yr ysgol. Mae 39 o ddisgyblion, ynghyd â 14 o blant meithrin rhan-amser yn yr ysgol. Trefnir disgyblion mewn tri dosbarth oedran cymysg. Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan rhyw 13% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.* | | |

## SYLWADAU CADARNHAOL

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Profiadau dysgu:

- Mae'r cwricwlwm yn galluogi i ddisgyblion ddatblygu nifer o sgiliau personol a chymdeithasol ac yn hyrwyddo dealltwriaeth gadarnhaol o'u diwylliant a'u hamgylchedd.
- Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

### Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:

- Trwy amrediad eang o brofiadau, mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgybion yn cael ei ddatblygu'n dda.

### Amgylchfyd Dysgu

- Rhoddir pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2012 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **6** | Canlyniadau Arholiadau 2011 |

*<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>*

Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau TGAU a Lefel A mewn Astudiaethau Crefyddol ar gyfer y flwyddyn 2010 a 2011, ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.

*<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>*

I'r aelodau ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth AG mewn ysgolion, a chael eu hysbysu'n llawn o'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

*<u>Argymhellion:</u>*

- Derbyn yr adroddiad.
- Ysyried unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd

**Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2010-11**
**Summary of Examination Results 2010 - 11**
*I CYSAG Sir Ddinbych Chewfror 2012* / For Denbighshire SACRE February 2012

*Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn* / GCSE Religious Studies - Full Course

*Yr Holl ymgeiswyr* / All candidates:

| ***Ysgol* /School** | **2011** *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | **2010** *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | **2011 A*-C %** | **2010 A*-C %** | *Gwahaniaeth* / Difference **%** | **+/-** *Cenedlaethol* / National **2011** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 18 | 46 | 77.8 | 67.4 | +10.4 | +4.9 |
| Glan Clwyd | 11 | 20 | 81.8 | 50.0 | +31.8 | +8.9 |
| Prestatyn | 233 | 207 | 89.7 | 78.7 | +11.0 | +16.8 |
| Dinas Bran | 47 | 6 | 87.2 | 50.0 | +37.2 | +14.3 |
| Brynhyfryd | 23 | 21 | 86.9 | 81.0 | +5.9 | +14.0 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | 18 | 0 | 88.9 | -- | +88.9 | +16.0 |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | 62 | 65 | 53.2 | 52.3 | +0.9 | -19.7 |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 52 | 55 | 100 | 94.5 | +5.5 | +27.1 |
| *ALl* **/**LA | 464 | 420 | 84.9 | 73.8 | +11.1 | +12.0 |
| *Holl Cymru* **/** All Wales | 9727 | 8831 | 72.9 | 74.3 | | |

*Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr* / GCSE Religious Studies – Short Course

*Yr Holl ymgeiswyr* / All candidates:

| *Ysgol* /School | 2011 *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | 2010 *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | 2011 A*-C % | 2010 A*-C % | *Gwahaniaeth/* Difference % | +/- *Cenedlaethol* / National 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 103 | 35 | 29.1 | 26.0 | -+3.1 | -28.9 |
| Glan Clwyd | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Prestatyn | 45 | 0 | 2.2 | -- | +2.2 | -55.8 |
| Dinas Bran | 79 | 85 | 29.1 | 77.6 | -48.5 | -28.9 |
| Brynhyfryd | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| *Y Rhyl* / Rhyl | 121 | 143 | 21.5 | 19.0 | +2.5 | -36.5 |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | 6 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 2 | 0 | 100 | -- | +100 | +42.0 |
| *ALl* **/**LA | 356 | 263 | 23.0 | 38.8 | -15.8 | -35.0 |
| *Holl Cymru* **/** All Wales | 18318 | 18034 | 58.0 | 59.7 | | |

*Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch/* GCE Religious Studies – A - Level

*Yr Holl ymgeiswyr /* All candidates:

| *Ysgol* /School | 2011 *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | 2010 *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | 2011 A*-C % | 2010 A*-C % | *Gwahaniaeth/* Difference % | +/- *Cenedlaethol* / National 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 11 | 17 | 45.4 | 41.1 | +4.3 | -32.6 |
| Glan Clwyd | 3 | 0 | 100 | -- | +100 | +22.0 |
| Prestatyn | 37 | 21 | 64.8 | 57.1 | +7.7 | -13.2 |
| Dinas Bran | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| Brynhyfryd | 4 | 5 | 100 | 80.0 | +20.0 | +22.0 |
| *Y Rhyl /* Rhyl | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | 0 | 0 | -- | -- | -- | -- |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 12 | 12 | 100 | 83.2 | +16.8 | +22.0 |
| *ALl /*LA | 67 | 55 | 71.6 | 60.0 | +11.6 | +6.4 |
| *Holl Cymru /* All Wales | 1487 | 1242 | 78.0 | 78.5 | | |

## *Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol* / Results Comparison to National Average

| *Cwrs Llawn / Full Course A* - C* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** |
| *Dinbych/* Denbigh | **50.0%** | **61.2%** | **67.9%** | **42.9%** | **70.6%** | 72.7% | **67.4** | 77.8 |
| Glan Clwyd | N/A | **54.6%** | **63.6%** | 100% | **68.8%** | 91.7% | **50.0** | 81.8 |
| Prestatyn | 74.7% | **65.4%** | 81.9% | 75.5% | 77.3% | 89.5% | 78.7 | 89.7 |
| Dinas Bran | **63.6%** | **44.4%** | **72.7%** | **0.0%** | 100% | 100**%** | **50.0** | 87.2 |
| Brynhyfryd | 68.8% | **40.0%** | **66.7%** | 100% | 100% | 100% | 81.0 | 86.9 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | N/A | **60.0%** | **0.0%** | 100% | 100% | 100% | -- | 88.9 |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | **44.9%** | **41.9%** | **22.4%** | **39.1%** | **55.8%** | **40.7**% | **52.3** | **53.2** |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | 86.5% | 95.7% | 98.0% | ---- | 97.9% | 95.5% | 94.5 | 100 |
| **Nat. Average** | **68.1%** | **70.2%** | **73.7%** | **71.1%** | **72.0%** | **71.9%** | **74.3** | **72.9** |

| *Cwrs Byr* / Short Course A* - C | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** |
| *Dinbych/* Denbigh | 64.6% | 70.6% | 65.9% | **51.8%** | **58.6%** | **40.8%** | **26.0** | **29.1** |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | N/A | **53.3%** | 64.7% | 84.0% | -- | 0.0 |
| Prestatyn | **0.0%** | **20.0%** | **42.9%** | **28.6%** | **14.3%** | **9.5**% | **--** | **2.2** |
| Dinas Bran | **47.8%** | **32.9%** | **28.3%** | 60.6% | **28.3%** | 80.0% | 77.6 | **29.1** |
| Brynhyfryd | N/A | N/A | N/A | N/A | 100% | 100% | -- | 0.0 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | **44.8%** | 60.6% | **46.8%** | **23.8%** | **33.0%** | **46.6%** | **19.0** | **21.5** |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | **28.6%** | **6.7%** | **17.4%** | **6.1%** | **18.8%** | **16.7%** | **--** | **0.0** |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | 100.0% | 93.6% | 98.0% | 88.7% | 96.2% | 96.1% | -- | 100 |
| **Nat. Average** | **58.4%** | **58.7%** | **59.7%** | **58.8%** | **59.7%** | **59.2%** | **59.7** | **58.0** |

## *Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol* / Results Comparison to National Average

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Safon Uwch* / A Level | | | | | | | | |
| | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** |
| *Dinbych*/ Denbigh | 100.0% | 83.3% | 66.7% | **60.9%** | **64.3%** | 83.3% | **41.1** | **45.4** |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | N/A | N/A | **75.0%** | N/A | **--** | 100 |
| Prestatyn | 100.0% | 92.0% | **64.7%** | 77.8% | **34.6%** | 82.1% | **57.1** | **64.8** |
| Dinas Bran | **50.0%** | **0.0%** | **0.0%** | 100% | N/A | N/A | -- | 0.0 |
| Brynhyfryd | 100.0% | **30.0%** | **20.0%** | N/A | 100% | 83.3% | 80.0 | 100 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | -- | 0.0 |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | -- | 0.0 |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | **44.4%** | **33.3%** | **58.3%** | **50.0%** | 100% | 100% | 83.2 | 100 |
| **Nat. Average** | **68.9%** | **65.4%** | **65.5%** | **75.9%** | **75.7%** | 79.7% | **78.5** | 78.0 |

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1* *CANLYNIADAU TAGAU 2010: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*

**Denbighshire Schools – Table 1** **GCSE RESULTS 2010: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **/Totals** | **% Carfan Cohort** | **A*** | % | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **F** | **%** | **G** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 46 | 30.0 | 2 | 4.3 | 7 | 15.2 | 8 | 17.4 | 14 | 30.4 | 6 | 13.0 | 4 | 8.7 | 5 | 10.9 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***67.4*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 20 | 12.7 | 2 | 10.0 | 2 | 10.0 | 5 | 25.0 | 1 | 5.0 | 6 | 30.0 | 3 | 15.0 | 1 | 5.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***50.0*** | ***100*** |
| Prestatyn | 207 | 75.3 | 20 | 9.7 | 42 | 20.3 | 62 | 30.0 | 39 | 18.8 | 24 | 11.6 | 9 | 4.3 | 7 | 3.4 | 4 | 1.9 | 0 | 0.0 | ***78.7*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 6 | 3.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 16.7 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 2 | 33.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***50.0*** | ***100*** |
| Brynhyfryd | 21 | 10.4 | 2 | 9.5 | 6 | 28.6 | 5 | 23.8 | 4 | 19.0 | 1 | 4.8 | 3 | 14.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***81.0*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | 0 | | | |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 65 | 78.3 | 0 | 0.0 | 3 | 4.6 | 15 | 23.1 | 16 | 24.6 | 10 | 15.4 | 8 | 12.3 | 7 | 10.8 | 5 | 7.7 | 1 | 1.5 | ***52.3*** | ***98.5*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 55 | 94.8 | 7 | 12.7 | 18 | 32.7 | 17 | 30.9 | 10 | 18.2 | 1 | 1.8 | 2 | 3.6 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***94.5*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl/* LEA Totals | 420 | 31.7 | 33 | 7.9 | 78 | 18.6 | 113 | 27.0 | 86 | 20.5 | 49 | 11.7 | 31 | 7.4 | 20 | 4.8 | 9 | 2.1 | 1 | 0.2 | ***73.8*** | ***99.8*** |
| *Cronnol/* Cumulative | 420 | 31.7 | 33 | 7.9 | 111 | 26.5 | 224 | 53.3 | 310 | 73.8 | 359 | 85.5 | 390 | 92.9 | 410 | 97.6 | 419 | 99.8 | 420 | 100 | ***73.8*** | ***99.8*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | *8831* | | *1192* | *13.5* | *2828* | *32.0* | *4772* | *54.0* | *6560* | *74.3* | *7585* | *85.9* | *8164* | *92.4* | *8562* | *97.0* | *8741* | *99.0* | *8831* | *100* | ***74.3*** | ***99.0*** |

***Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 2*** ***CANLYDIADAU TGAU 2010 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR***

**Denbighshire Schools – Table 2** **GCSE RESULTS 2010: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

| ***Ysgolion/*** **Schools** | ***Cyfanswm/*** **Totals** | % ***Cydran*** **Cohort** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **F** | % | **G** | % | **U** | % | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 35 | 22.7 | 0 | 0.0 | 1 | 2.9 | 2 | 5.7 | 6 | 17.1 | 3 | 8.6 | 8 | 22.9 | 9 | 25.7 | 6 | 17.1 | 0 | 0.0 | ***26.0*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dinas Bran | 85 | 46.2 | 1 | 1.2 | 7 | 8.2 | 21 | 24.7 | 37 | 43.5 | 10 | 11.8 | 7 | 8.2 | 1 | 1.2 | 1 | 1.2 | 0 | 0.0 | ***77.6*** | ***100*** |
| Brynhyfryd | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Y Rhyl/*Rhyl | 143 | 68.1 | 0 | 0.0 | 4 | 2.8 | 4 | 2.8 | 19 | 13.3 | 31 | 21.7 | 34 | 23.8 | 23 | 16.1 | 17 | 11.9 | 11 | 7.6 | ***19.0*** | ***92.4*** |
| *Ben Ed Jones/*Bl. Ed Jones | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 263 | | 1 | 0.4 | 12 | 4.6 | 27 | 10.3 | 62 | 23.6 | 44 | 16.7 | 49 | 18.6 | 33 | 12.5 | 24 | 9.1 | 11 | 4.2 | ***38.8*** | ***95.8*** |
| *Cronnol/l* Cumulative | 263 | | 1 | 0.4 | 13 | 5.0 | 40 | 15.2 | 102 | 38.8 | 146 | 55.5 | 195 | 74.1 | 228 | 86.6 | 252 | 95.8 | 263 | 100 | ***38.8*** | ***95.8*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***18034*** | | ***1446*** | ***8.0*** | ***3803*** | ***21.1*** | ***7097*** | ***39.4*** | ***10770*** | ***59.7*** | ***13456*** | ***74.6*** | ***15466*** | ***85.8*** | ***16846*** | ***93.4*** | ***17619*** | ***97.7*** | ***18034*** | ***100*** | ***59.7*** | ***97.7*** |

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 3 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2010 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

**Denbighshire Schools – Table 3 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2010: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **Totals** | **A*** | **%** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 17 | 0 | 0.0 | 1 | 5.9 | 3 | 17.6 | 3 | 17.6 | 6 | 35.3 | 4 | 23.5 | 0 | 0.0 | ***41.1*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 21 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 4 | 19.0 | 8 | 38.1 | 6 | 28.6 | 2 | 9.5 | 1 | 4.8 | ***57.1*** | ***95.2*** |
| Dinas Bran | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 5 | 0 | 0.0 | 1 | 20.0 | 2 | 40.0 | 1 | 20.0 | 1 | 20.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***80.0*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 0 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Santes Ffraid* St Brigids | 12 | 1 | 8.3 | 2 | 16.6 | 4 | 33.3 | 3 | 25.0 | 2 | 16.6 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***83.2*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 55 | 1 | 1.8 | 4 | 7.3 | 13 | 23.6 | 15 | 27.3 | 15 | 27.3 | 6 | 10.9 | 1 | 1.8 | ***60.0*** | ***98.2*** |
| *Cronnol* Cumulative | 55 | 1 | 1.8 | 5 | 9.1 | 18 | 32.7 | 33 | 60.0 | 48 | 87.3 | 54 | 98.2 | 55 | 100 | ***60.0*** | ***98.2*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***1242*** | ***52*** | ***4.2*** | ***269*** | ***21.7*** | ***683*** | ***55.0*** | ***975*** | ***78.5*** | ***1147*** | ***92.4*** | ***1211*** | ***97.5*** | ***1242*** | ***100*** | ***78.5*** | ***100*** |

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1* *CANLYNIADAU TAGAU 2011: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*

**Denbighshire Schools – Table 1 GCSE RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion* Schools** | ***Cyfanswm* /Totals** | **A*** | % | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **F** | **%** | **G** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 18 | 1 | 5.6 | 2 | 11.1 | 4 | 22.2 | 7 | 38.9 | 1 | 5.6 | 1 | 5.6 | 1 | 5.6 | 1 | 5.6 | 0 | 0.0 | ***77.8*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 11 | 1 | 9.1 | 4 | 36.4 | 1 | 9.1 | 3 | 27.3 | 2 | 18.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***81.8*** | ***100*** |
| Prestatyn | 233 | 50 | 21.5 | 68 | 29.2 | 61 | 26.2 | 30 | 12.9 | 10 | 4.3 | 4 | 1.7 | 4 | 1.7 | 6 | 2.6 | 0 | 0.0 | ***89.7*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 47 | 3 | 6.4 | 5 | 10.6 | 17 | 36.2 | 16 | 34.1 | 1 | 2.1 | 1 | 2.1 | 2 | 4.3 | 2 | 4.3 | 0 | 0.0 | ***87.2*** | ***100*** |
| Brynhyfryd | 23 | 11 | 47.8 | 6 | 26.1 | 3 | 13.0 | 0 | 0.0 | 2 | 8.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 4.4 | 0 | 0.0 | ***86.9*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 18 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 5 | 27.8 | 11 | 61.1 | 2 | 11.1 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***88.9*** | ***100*** |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 62 | 3 | 4.8 | 3 | 4.8 | 17 | 27.4 | 10 | 16.1 | 9 | 14.5 | 6 | 9.7 | 5 | 8.1 | 9 | 14.5 | 0 | 0.0 | ***53.2*** | ***100*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 52 | 15 | 28.8 | 16 | 30.8 | 17 | 32.7 | 4 | 77.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl/* LEA Totals | 464 | 84 | 18.11 | 104 | 22.4 | 125 | 26.9 | 81 | 17.5 | 27 | 5.8 | 12 | 2.6 | 12 | 2.6 | 19 | 4.1 | 0 | 0.0 | ***84.9*** | ***100*** |
| ***Holl Cymru* *All Wales*** | *9727* | *1333* | *13.7* | *1838* | *18.9* | *2130* | *21.9* | *1790* | *18.4* | *1138* | *11.7* | *642* | *6.6* | *457* | *4.7* | *272* | *2.8* | *126* | *1.3* | ***72.9*** | ***98.7*** |

**Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4 CANLYDIADAU TGAU 2011 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR**
**Denbighshire Schools – Table 4 GCSE RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

| ***Ysgolion/*** **Schools** | ***Cyfanswm/*** **Totals** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **F** | % | **G** | % | **U** | % | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 103 | 0 | 0.0 | 1 | 1.0 | 5 | 4.8 | 24 | 23.3 | 21 | 20.4 | 20 | 19.4 | 25 | 24.3 | 7 | 6.8 | 0 | 0.0 | ***29.1*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***0.0*** |
| Prestatyn | 45 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 2.2 | 1 | 2.2 | 10 | 22.2 | 8 | 17.8 | 19 | 42.2 | 6 | 13.3 | ***2.2*** | ***86.6*** |
| Dinas Bran | 79 | 0 | 0.0 | 1 | 1.3 | 9 | 11.4 | 13 | 16.4 | 27 | 34.2 | 19 | 24.1 | 7 | 8.9 | 3 | 3.8 | 0 | 0.0 | ***29.1*** | ***100*** |
| Brynhyfryd | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***0.0*** |
| *Y Rhyl/*Rhyl | 121 | 1 | .8 | 1 | .8 | 7 | 5.79 | 17 | 14.0 | 24 | 19.8 | 29 | 24.0 | 21 | 17.4 | 15 | 12.4 | 6 | 4.9 | ***21.5*** | ***95.1*** |
| *Ben Ed Jones/*Bl. Ed Jones | 6 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 3 | 50.0 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***100*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 50.0 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 356 | 1 | 0.3 | 3 | 0.8 | 22 | 6.2 | 56 | 15.7 | 76 | 21.3 | 80 | 22.5 | 62 | 17.4 | 44 | 12.3 | 12 | 3.4 | ***23.0*** | ***96.5*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***18318*** | ***1722*** | ***9.4*** | ***2253*** | ***12.3*** | ***3096*** | ***16.9*** | ***3554*** | ***19.4*** | ***2638*** | ***14.4*** | ***2125*** | ***11.6*** | ***1612*** | ***8.8*** | ***952*** | ***5.2*** | ***366*** | ***2.0*** | ***58.0*** | ***98.0*** |

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 7 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2011 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

**Denbighshire Schools – Table 7 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2011: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **Totals** | **A*** | **%** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 11 | 0 | 0.0 | 2 | 18.2 | 1 | 9.1 | 2 | 18.2 | 4 | 36.4 | 1 | 9.1 | 1 | 9.1 | ***45.4*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 3 | 0 | 0.0 | 2 | 66.6 | 1 | 33.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| Prestatyn | 37 | 0 | 0.0 | 4 | 10.8 | 7 | 18.9 | 13 | 35.1 | 10 | 27.0 | 3 | 8.1 | 0 | 0.0 | ***64.8*** | ***100*** |
| Dinas Bran | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***0.0*** |
| Brynhyfryd | 4 | 0 | 0.0 | 1 | 25.0 | 2 | 50.0 | 1 | 25.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***0.0*** |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***0.0*** | ***0.0*** |
| *Santes Ffraid* St Brigids | 12 | 1 | 8.3 | 3 | 25.0 | 6 | 50.0 | 2 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | ***100*** | ***100*** |
| *Cyfanswm AALl* LEA Totals | 67 | 1 | 1.5 | 12 | 17.9 | 17 | 25.3 | 18 | 26.9 | 14 | 20.9 | 4 | 5.9 | 1 | 1.5 | ***71.6*** | ***98.4*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***1489*** | ***52*** | ***3.5*** | ***253*** | ***17.0*** | ***469*** | ***31.5*** | ***387*** | ***26.0*** | ***214*** | ***14.4*** | ***83*** | ***5.6*** | ***30*** | ***2.0*** | ***78.0*** | ***98.0*** |

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2012 |
|---|---|---|
| Eitem ar y Rhaglen: | **7** | Archwiliadau newydd Estyn a'r Ffocws ar Werthuso Ysgolion |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Cyflwyniad gan Julian Molloy, Uwch Swyddog Gwella Ysgolion, ar Archwiliadau newydd Estyn a'r ffocws ar hunanwerthuso ysgolion.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Hysbysu'r aelodau o gynnwys fformat archwilio newydd Estyn a'r ffocws ar hunanwerthuso ysgolion.

*Argymhellion:*

- Derbyn y cyflwyniad llafar.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 24 Chwefror 2012 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **9** | Cystadleuaeth Llythrennedd / Rhifedd mewn AG ar gyfer Ysgolion |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG i awgrymu trefnu cystadleuaeth i ysgolion i gynhyrchu adnoddau a fydd yn cynnwys Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol CA2 a/neu CA3.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Ystyried y posibilrwydd o drefnu cystadleuaeth ar gyfer ysgolion.
Ystyried y goblygiadau ariannol

*Argymhellion:*

Gofyn i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu drefnu cystadleuaeth
Gofyn i'r Awdurdod Lleol gefnogi'r gystadleuaeth